OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 806 (Cy. 162)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU
# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2 Gorffennaf 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *4 Gorffennaf 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *26 Gorffennaf 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan—

(a) ac eithrio rheoliadau 4, 26 a 29, i'r graddau y mae rheoliad 29 fel y'i darllenir gydag Atodlen 3 yn dirymu Rheoliadau Esgyrn Cig Eidion (Diwygio) (Cymru) 1999 a Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Siopau Cigyddion) (Diwygio) (Cymru) 2000, adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972")(**1**);

(b) o ran rheoliadau 8(4)(b), 11(6)(a), 13(2), 21 a 26, baragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf 1972(**2**);

(c) o ran rheoliadau 4, 26 a 29, i'r graddau y mae rheoliad 29 fel y'i darllenir gydag Atodlen 3 yn dirymu Rheoliadau Esgyrn Cig Eidion (Diwygio) (Cymru) 1999 a Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Siopau Cigyddion) (Diwygio) (Cymru) 2000, adrannau 16(1)(a) ac 48(1)(c) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**3**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf 1972 mewn perthynas â—

(a) rheoli a rheoleiddio gollwng yn fwriadol organeddau a addaswyd yn enetig, eu rhoi ar y farchnad a'u symud ar draws ffiniau(**4**);

(**1**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).

(**2**) Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 ac O.S. 2007/1388.

(**3**) 1990 p. 16. Diwygiwyd adrannau 16(1)(a) ac 48(1) gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28).

(**4**) O.S. 2003/2901. Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi.

(b) mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod), gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu a fwydir iddynt(**5**);

(c) mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol ar gyfer amddiffyn iechyd y cyhoedd(**6**);

(d) mesurau mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(**7**).

Fel y nodir uchod, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau penodol at yr Atodiadau penodedig i'r offerynnau a ganlyn gan yr UE gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr Atodiadau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd—

(a) Atodiad I neu II i Reoliad (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegu fitaminau a mwynau a sylweddau penodol eraill at fwydydd(**8**);

(b) yr Atodiadau i Reoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion bwyd(**9**);

(c) Atodiad I i Gyfarwyddeb 2009/32/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyd-ddynesu cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau ynglŷn â thoddyddion echdynnu a ddefnyddir wrth gynhyrchu deunyddiau bwyd a chynhwysion bwyd (Ail-lunio)(**10**);

(d) Atodiad I i Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd(**11**);

(e) yr Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 579/2014(**12**).

I'r graddau y mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer pwerau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, yn unol ag adran 48(4A)(**13**) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd cyn gwneud y Rheoliadau hyn.

Ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio a gwerthuso'r Rheoliadau hyn fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**14**).

(**5**) O.S. 2005/1971. Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi.
(**6**) O.S. 2008/1792.
(**7**) O.S. 2010/2690.
(**8**) OJ Rhif L 404, 30.12.2006, t. 26, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/1203 (OJ Rhif L 173, 6.7.2017, t. 9).
(**9**) OJ Rhif L 354, 31.12.2008, t. 16, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2018/682 (OJ Rhif L 116, 7.5.2018, t. 5).
(**10**) OJ Rhif L 141, 6.6.2009, t. 3, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn (EU) 2016/1855 (OJ Rhif L 284, 20.10.2016, t. 19).
(**11**) OJ Rhif L 12, 15.1.2011, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2018/831 (OJ Rhif L 140, 6.6.2018, t. 35).
(**12**) OJ Rhif L 160, 29.5.2014, t. 14, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2016/238 (OJ Rhif L 45, 20.2.2016, t. 1).
(**13**) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999.
(**14**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/228 (OJ Rhif L 35, 10.2.2017, t. 10).

# RHAN 1

## Cyflwyniad

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2018.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 26 Gorffennaf 2018.

# RHAN 2

## Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â bwyd a bwyd anifeiliaid

### Rheoliadau Bwyd (Marcio Lotiau) 1996

**2.** Yn rheoliad 4 o Reoliadau Bwyd (Marcio Lotiau) 1996(**15**), hepgorer paragraff (f).

### Rheoliadau Bwydydd y Bwriedir eu Defnyddio mewn Deietau Egni Cyfyngedig at Golli Pwysau 1997

**3.** Yn rheoliad 3(f) o Reoliadau Bwydydd y Bwriedir eu Defnyddio mewn Deietau Egni Cyfyngedig at Golli Pwysau 1997(**16**), yn lle "2(1)(a)" rhodder "2(1)".

### Rheoliadau Bara a Blawd 1998

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Bara a Blawd 1998(**17**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) hepgorer y diffiniad o "flour treatment agent";

(b) yn y diffiniad o "food additive", yn lle "the Miscellaneous Food Additives Regulations 1995" rhodder "Article 3(2)(a) of Regulation (EC) No 1333/2008 of the European Parliament and of the Council on food additives(**18**)".

### Rheoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000

**5.** Yn rheoliad 2 o Reoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000(**19**), yn lle'r diffiniad o "y Gyfarwyddeb" rhodder—

> "ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 1999/21/EC ar fwydydd deietegol at ddibenion meddygol arbennig(**20**), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2013/26/EU(**21**);".

(**15**) O.S. 1996/1502, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**16**) O.S. 1997/2182, a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/639 (Cy. 175); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**17**) O.S. 1998/141, a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/1136 ac O.S. 2014/2303 (Cy. 227); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**18**) OJ Rhif L 354, 31.12.2008, t. 16, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2018/682 (OJ Rhif L 116, 7.5.2018, t. 5).
(**19**) O.S. 2000/1866 (Cy. 125), a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/3573 (Cy. 316) ac O.S. 2008/2602 (Cy. 228); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**20**) OJ Rhif L 91, 7.4.1999, t. 29.
(**21**) OJ Rhif L 158, 10.6.2013, t. 376.

**Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001**

**6.**—(1) Mae Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001(**22**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7(3), yn lle'r geiriau o "â pharagraffau 1 a 2" hyd at "i bobl eu bwyta" rhodder "ag Atodiad 3 i Reoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau y caiff cydymffurfedd â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid ei wirio(**23**)".

(3) Hepgorer rheoliad 8.

**Rheoliadau Cynhyrchion Coco a Siocled (Cymru) 2003**

**7.**—(1) Mae Rheoliadau Cynhyrchion Coco a Siocled (Cymru) 2003(**24**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), hepgorer y diffiniadau o "Cytundeb AEE" a "Gwladwriaeth yr AEE".

(3) Yn rheoliad 7(2)(a), yn lle "Reoliadau 1996" rhodder "Erthygl 9(1)(b) o Reoliad (EU) Rhif 1169/2011(**25**)".

(4) Hepgorer rheoliad 12.

**Rheoliadau Cynhyrchion Siwgr Penodedig (Cymru) 2003**

**8.**—(1) Mae Rheoliadau Cynhyrchion Siwgr Penodedig (Cymru) 2003(**26**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, hepgorer y diffiniadau o "Cytundeb yr AEE" a "Gwladwriaeth yr AEE".

(3) Hepgorer rheoliad 11.

(4) Yn Atodlen 1—

(a) yn y tabl—

(i) yng nghofnod 5, yng ngholofn 2, yn is-baragraff (c), yn lle "pharagraff 4" rhodder "pharagraff 3";

(ii) yng nghofnod 11, yng ngholofn 2, yn lle "pharagraff (2)" rhodder "pharagraff 3";

(b) yn nodyn 7—

(i) yn lle "Chyfarwyddeb 2009/32/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyd-ddynesu cyfreithiau'r Aelod-Wladwriaethau ynglŷn â thoddyddion echdynnu a ddefnyddir wrth gynhyrchu bwydydd a chynhwysion bwyd (Ail-luniwyd)" rhodder "Chyfarwyddeb 2009/32/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyd-ddynesu cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau ynglŷn â thoddyddion echdynnu a ddefnyddir wrth gynhyrchu bwydydd a chynhwysion bwyd (Ail-lunio) fel y diwygir Atodiad I iddi o bryd i'w gilydd(**27**)";

(**22**) O.S. 2001/1440 (Cy. 102), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**23**) OJ Rhif L 165, 30.4.2004, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2018/455 (OJ Rhif L 77, 20.3.2018, t. 4).
(**24**) O.S. 2003/3037 (Cy. 285), a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3254 (Cy. 247) ac O.S. 2014/2303 (Cy. 227).
(**25**) OJ Rhif L 304, 22.11.2011, t. 18, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2015/2283 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 327, 11.12.2015, t. 1) ac fel y'i cywirwyd gan y Corigenda a nodir yn OJ Rhif L 247, 13.9.2012, t. 17 ac OJ Rhif L 266, 30.9.2016, t. 7.
(**26**) O.S. 2003/3047 (Cy. 290), a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3254 (Cy. 247); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**27**) OJ Rhif L 141, 6.6.2009, t. 3, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn (EU) 2016/1855 (OJ Rhif L 284, 20.10.2016, t. 19).

(ii) yn lle "Reoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion bwyd" rhodder "Reoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion bwyd fel y diwygir yr Atodiadau iddo o bryd i'w gilydd(**28**)".

### Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) 2004

**9.** Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) 2004(**29**), hepgorer y diffiniadau o "Cytundeb AEE" a "Gwladwriaeth AEE".

### Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004

**10.** Yn Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004(**30**), hepgorer rheoliad 9.

### Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

**11.**—(1) Mae Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(**31**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad sy'n dechrau gyda "mae i "Penderfyniad 2006/766""—

(a) hepgorer ""Rheoliad 809/2011" ("*Regulation 809/2011*"),";

(b) yn lle ", "Rheoliad 16/2012" ("*Regulation 16/2012*"), "Rheoliad 28/2012" ("*Regulation 28/2012*"), "Rheoliad 702/2013" ("*Regulation 702/2013*") a "Rheoliad 1079/2013" ("*Regulation 1079/2013*")" rhodder "a "Rheoliad 16/2012" ("*Regulation 16/2012*")".

(3) Yn lle rheoliad 32 rhodder—

"**Cyfyngiad ar werthu llaeth crai a fwriedir ar gyfer ei yfed yn uniongyrchol gan bobl**

**32.** Mae Atodlen 6 (cyfyngiadau ar werthu llaeth crai a fwriedir ar gyfer ei yfed yn uniongyrchol gan bobl) yn effeithiol."

(4) Hepgorer rheoliad 33.

(5) Yn Atodlen 1—

(a) yn y diffiniad o "Rheoliad 852/2004" yn lle "a Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor" rhodder ", Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**32**) ac ynghyd â Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2017/2158 sy'n sefydlu mesurau lliniaru a lefelau meincnodi ar gyfer lleihau presenoldeb acrylamid mewn bwyd(**33**)";

(b) yn y diffiniad o "Rheoliad 853/2004", yn lle ", Rheoliad 1020/2008 a Rheoliad 1079/2013" rhodder "a Rheoliad 1020/2008";

(**28**) OJ Rhif L 354, 31.12.2008, t. 16, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2018/682 (OJ Rhif L 116, 7.5.2018, t. 5).
(**29**) O.S. 2004/314 (Cy. 32), a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3254 (Cy. 247); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**30**) O.S. 2004/3220 (Cy. 276), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**31**) O.S. 2006/31 (Cy. 5), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/893 (Cy. 92), O.S. 2012/1765 (Cy. 225), O.S. 2013/3007 (Cy. 298), O.S. 2013/3049 (Cy. 308) ac O.S. 2014/1858 (Cy. 192); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**32**) OJ Rhif L 68, 12.3.2013, t. 24.
(**33**) OJ Rhif L 304, 21.11.2017, t. 24.

(c) yn y diffiniad o "Rheoliad 854/2004", yn lle ", Rheoliad 1021/2008 a Rheoliad 1079/2013" rhodder "a Rheoliad 1021/2008";

(d) yn y diffiniad o "Rheoliad 882/2004", yn lle ", Rheoliad 669/2009 a Rheoliad 702/2013" rhodder "a Rheoliad 669/2009";

(e) yn lle'r diffiniad o "Rheoliad 2073/2005" rhodder—

"ystyr "Rheoliad 2073/2005" ("*Regulation 2073/2005*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2073/2005 ar feini prawf microbiolegol ar gyfer deunyddiau bwyd(**34**) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/1495 yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2073/2005 o ran Campylobacter mewn carcasau brwyliaid(**35**);";

(f) yn lle'r diffiniad o "Rheoliad 2074/2005" rhodder—

"ystyr "Rheoliad 2074/2005" ("*Regulation 2074/2005*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 sy'n gosod mesurau gweithredu ar gyfer cynhyrchion penodol o dan Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol o dan Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n rhanddiddymu Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004(**36**), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/1973(**37**);";

(g) hepgorer y diffiniadau o "Rheoliad 809/2011", "Rheoliad 28/2012", "Rheoliad 702/2013" a "Rheoliad 1079/2013".

(6) Yn Atodlen 3—

(a) ym mharagraff 2(2), yn lle "Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 579/2014" rhodder "Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 579/2014(**38**) fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd";

(b) yn lle paragraff 14 rhodder—

"**14.** At ddibenion yr Atodlen hon bydd unrhyw eiriau neu ymadroddion a ddefnyddir yn yr Atodlen hon ac unrhyw eiriau neu ymadroddion Saesneg cyfatebol a ddefnyddir yn Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 579/2014 sy'n caniatáu rhanddirymiad o ddarpariaethau penodol yn Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran cludo olewau a brasterau hylifol dros y môr(**39**) neu Gyfarwyddeb y Comisiwn 98/28/EC sy'n caniatáu rhanddirymiad o ddarpariaethau penodol yng Nghyfarwyddeb 93/43/EEC ar hylendid deunyddiau bwyd o ran swmpgludo siwgr crai dros y môr(**40**) yn dwyn yr un ystyr ag ystyr y geiriau neu'r ymadroddion Saesneg cyfatebol hynny yn eu tro yn y Rheoliad hwnnw neu'r Gyfarwyddeb honno."

(7) Yn Atodlen 3A, yn y diffiniad o "Rheoliad TSE y Gymuned", yn lle'r geiriau o "Rheoliad (EC) Rhif 999/2001" hyd at "a roddwyd i'r Comisiwn" rhodder "Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a dileu enseffalopathïau

(**34**) OJ Rhif L 338, 22.12.2005, t. 1 fel y'i cywirwyd gan y Corigenda a nodir yn OJ Rhif L 278, 10.10.2006, t. 32, OJ Rhif L 283, 14.10.2006, t. 62, OJ Rhif L 68, 13.3.2015, t. 90, OJ Rhif L 195, 20.7.2016, t. 82 ac OJ Rhif L 195, 20.7.2016, t. 83.

(**35**) OJ Rhif L 218, 24.8.2017, t. 1.

(**36**) OJ Rhif 338, 22.12.2005, t. 27, fel y'i cywirwyd gan y Corigendwm a nodir yn OJ Rhif L 214, 9.8.2013, t. 11.

(**37**) Rheoliad y Comisiwn (EU) 2017/1973 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2074/2005 o ran rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion pysgodfeydd a ddaliwyd gan gychod sy'n cyhwfan baner Aelod Wladwriaeth ac a gyflwynir i'r Undeb wedi iddynt gael eu trosglwyddo mewn trydydd gwledydd ac yn sefydlu tystysgrif iechyd enghreifftiol ar gyfer y cynhyrchion hynny (OJ Rhif L 281, 31.10.2017, t. 21).

(**38**) OJ Rhif L 160, 29.5.2014, t. 14, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2016/238 (OJ Rhif L 45, 20.2.2016, t. 1).

(**39**) OJ Rhif L 160, 29.5.2014, t. 14, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2016/238 (OJ Rhif L 45, 20.2.2016, t. 1).

(**40**) OJ Rhif L 140, 12.5.1998, t. 10. Mae cyfeiriadau yn y Gyfarwyddeb hon at Gyfarwyddeb 93/43/EEC sydd wedi ei diddymu i'w dehongli fel cyfeiriadau at Reoliad (EC) 852/2004 ar hylendid deunyddiau bwyd (OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 1) (gweler Erthygl 17(2) o Reoliad (EC) 852/2004).

sbyngffurf trosglwyddadwy penodol(**41**), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/893(**42**)".

(8) Yn Atodlen 4—

(a) ym mharagraff 3—

(i) yn is-baragraff (dd), yn lle "Rheoliad y Cyngor 1906/90" rhodder "Rheoliad y Comisiwn 543/2008 a Rheoliad 1308/2013";

(ii) yn is-baragraff (e), yn lle "Rheoliad y Cyngor 1907/90" rhodder "Rheoliad y Comisiwn 589/2008 a Rheoliad 1308/2013";

(b) ym mharagraff 8—

(i) hepgorer y diffiniadau o "Rheoliad y Cyngor 1906/90" a "Rheoliad y Cyngor 1907/90";

(ii) yn y lle priodol mewnosoder—

(aa) "ystyr "Rheoliad y Comisiwn 543/2008" ("*Commission Regulation 543/2008*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 543/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran y safonau marchnata ar gyfer cig dofednod(**43**);";

(bb) "ystyr "Rheoliad y Comisiwn 589/2008" ("*Commission Regulation 589/2008*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran y safonau marchnata ar gyfer wyau(**44**);";

(cc) "ystyr "Rheoliad 1308/2013" ("*Regulation 1308/2013*") yw Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac sy'n diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007(**45**);".

(9) Hepgorer Atodlen 7.

### Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd) (Cymru) 2007

**12.**—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd) (Cymru) 2007(**46**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle'r diffiniad o "Rheoliadau 2006" rhodder—

(**41**) OJ Rhif L 147, 31.5.2001, t. 1.
(**42**) Rheoliad y Comisiwn (EU) 2017/893 sy'n diwygio Atodiadau I a IV i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac Atodiadau X, XIV a XV i Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 o ran y darpariaethau ar brotein anifeiliaid wedi ei brosesu (OJ Rhif L 138, 25.05.2017, t. 92). Mae rhannau o'r diwygiadau sydd wedi eu gwneud gan y Rheoliad Comisiwn hwn yn gymwys o 1 Ionawr 2018, sydd ar ôl y dyddiad y mae'r diwygiadau sydd wedi eu gwneud gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/1972 diweddarach (OJ Rhif L 281, 31.10.2017, t. 14) yn gymwys.
(**43**) OJ Rhif L 157, 17.6.2008, t. 46, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 519/2013 (OJ Rhif L 158, 10.6.2013, t. 74). Mae cyfeiriadau yn Rheoliad y Comisiwn 543/2008 at Reoliad y Cyngor 1234/2007 sydd wedi ei ddiddymu i'w dehongli fel cyfeiriadau at Reoliad 1308/2013 (gweler Erthygl 230(2) o Reoliad 1308/2013).
(**44**) OJ Rhif L 163, 24.6.2008, t. 6, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2017/2168 (OJ Rhif L 306, 22.11.2017, t. 6). Mae cyfeiriadau yn Rheoliad y Comisiwn 589/2008 at Reoliad y Cyngor 1234/2007 sydd wedi ei ddiddymu i'w dehongli fel cyfeiriadau at Reoliad 1308/2013 (gweler Erthygl 230(2) o Reoliad 1308/2013).
(**45**) )OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 671, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2017/2393 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 350, 29.12.2017, t. 15).
(**46**) O.S. 2007/196 (Cy. 15), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

"ystyr "Rheoliadau 2009" ("*the 2009 Regulations*") yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(**47**);";

(ii) yn y diffiniad o "Rheoliad 882/2004", hepgorer paragraff (c);

(b) ym mharagraff (3)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle "Rheoliadau 2006" rhodder "Rheoliadau 2009";

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle "Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2006" rhodder "Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013(**48**)".

(3) Yn rheoliad 9—

(a) ym mhob lle y mae'n digwydd, yn lle "Rheoliadau 2006" rhodder "Rheoliadau 2009" ac yn lle "Reoliadau 2006" rhodder "Reoliadau 2009";

(b) ym mharagraff (3)—

(i) yn lle "41 i 43" rhodder "45 i 47";

(ii) yn lle "45 a 46" rhodder "49 a 50".

(4) Hepgorer rheoliad 20.

**Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007**

**13.**—(1) Mae Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007(**49**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn lle'r diffiniad o "y Rheoliad CE" rhodder—

"ystyr "y Rheoliad CE" ("*the EC Regulation*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cygor ar ychwanegu fitaminau a mwynau a sylweddau penodol eraill at fwydydd, fel y diwygir Atodiad I neu II iddo o bryd i'w gilydd(**50**)."

(3) Yn rheoliad 4(1), yn lle "Yn ddarostyngedig i'r mesurau trosiannol a gynhwysir yn Erthygl 18 (sy'n ymwneud â bwydydd a roddwyd ar y farchnad cyn 1 Gorffennaf 2007), mae" rhodder "Mae".

**Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007**

**14.**—(1) Mae Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007(**51**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn y diffiniad sy'n dechrau gyda "mae i "Cyfarwyddeb 2004/41""—

(aa) yn lle ", "Rheoliad 2075/2005" ("*Regulation 2075/2005*")" rhodder "a Rheoliad 2015/1375" ("*Regulation 2015/1375*")";

(bb) hepgorer "a "Rheoliad 2076/2005" ("*Regulation 2076/2005*")";

(ii) yn y diffiniad o "mewnforyn trydedd wlad", yn lle "y mae tâl yn daladwy mewn cysylltiad ag ef o dan reoliad 54 o Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007" rhodder "y mae Rhan 3 o

(**47**) O.S. 2009/3376 (Cy. 298).
(**48**) O.S. 2013/2033.
(**49**) O.S. 2007/1984 (Cy. 165), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/2069 (Cy. 191); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**50**) OJ Rhif L 404, 30.12.2006, t. 26, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/1203 (OJ Rhif L 173, 6.7.2017, t. 9).
(**51**) O.S. 2007/3462 (Cy. 307), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**52**) yn gymwys mewn cysylltiad ag ef";

(b) ym mharagraff (2)(a), hepgorer "neu 7".

(3) Yn yr Atodlen—

(a) yn y diffiniad o "Rheoliad 853/2004", yn lle ", Rheoliad 2074/2005 a Rheoliad 2076/2005" rhodder "a Rheoliad 2074/2005";

(b) yn lle'r diffiniad o "Rheoliad 854/2004" rhodder—

"ystyr "Rheoliad 854/2004" ("*Regulation 854/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cygnor sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl(**53**) fel y'i darllenir gyda Chyfarwyddeb 2004/41, Rheoliad 2074/2005 a Rheoliad 2015/1375;";

(c) yn y diffiniad o "Rheoliad 882/2004", hepgorer "a Rheoliad 2076/2005";

(d) yn lle'r diffiniad o "Rheoliad 2074/2005" rhodder—

"ystyr "Rheoliad 2074/2005" ("*Regulation 2074/2005*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 sy'n gosod mesurau gweithredu ar gyfer cynhyrchion penodol o dan Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol o dan Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n rhanddiddymu Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004(**54**).";

(e) yn lle'r diffiniad o "Rheoliad 2075/2005" rhodder—

"ystyr "Rheoliad 2015/1375" ("*Regulation 2015/1375*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/1375 sy'n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig(**55**).";

(f) hepgorer y diffiniad o "Rheoliad 2076/2005".

### Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007

**15.**—(1) Mae Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007(**56**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle'r diffiniad o "Cyfarwyddeb 89/108" rhodder—

"ystyr "Cyfarwyddeb 89/108" ("*Directive 89/108*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 89/108/EEC ar gyd-ddynesu cyfreithiau Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud â deunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym ac sydd i'w bwyta gan bobl(**57**);";

(**52**) O.S. 2011/2379 (Cy. 252).
(**53**) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 206, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2015/2285 (OJ Rhif L 323, 9.12.2015, t. 2).
(**54**) OJ Rhif 338, 22.12.2005, t. 27, fel y'i cywirwyd gan y Corigendwm a nodir yn OJ Rhif L 214, 9.8.2013, t. 11 ac fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/1973 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2074/2005 o ran rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion pysgodfeydd a ddaliwyd gan gychod sy'n cyhwfan baner Aelod Wladwriaeth ac a gyflwynir i'r Undeb wedi iddynt gael eu trosglwyddo mewn trydydd gwledydd ac yn sefydlu tystysgrif iechyd enghreifftiol ar gyfer y cynhyrchion hynny (OJ Rhif L 281, 31.10.2017, t. 21).
(**55**) OJ Rhif L 212, 11.8.2015, t. 7.
(**56**) O.S. 2007/389 (Cy. 40), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**57**) OJ Rhif L 40, 11.2.1989, t. 34, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2013/20/EU (OJ Rhif L 158, 10.6.2013, t. 234).

(ii) yn lle'r diffiniad o "awdurdod bwyd" rhodder—

"mae i "awdurdod bwyd" yr ystyr a roddir i "*food authority*" yn rhinwedd adran 5(1A) o'r Ddeddf;";

(b) ym mharagraff (3)—

(i) yn is-baragraff (a), hepgorer "neu 7";

(ii) ar ddiwedd is-baragraff (a), mewnosoder "neu";

(iii) ar ddiwedd is-baragraff (b), hepgorer "neu";

(iv) hepgorer is-baragraff (c).

(3) Yn rheoliad 9, hepgorer paragraff (3).

(4) Hepgorer Atodlen 3.

### Rheoliadau Cynhyrchion Penodedig o Tsieina (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2008

**16.** Yn Rheoliadau Cynhyrchion Penodedig o Tsieina (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2008(**58**), hepgorer rheoliad 8.

### Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008

**17.**—(1) Mae Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008(**59**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 3—

(a) ym mharagraff 1(a), hepgorer y geiriau o "neu erthygl 4" hyd at "ddarllenadwy";

(b) ym mharagraff 3, hepgorer is-baragraff (a) (ynghyd â'r "neu" ar y diwedd).

### Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

**18.**—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(**60**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad sy'n dechrau gyda "mae i "Cyfarwyddeb 2004/41"", yn lle ", "Rheoliad 211/2013" ("*Regulation 211/2013*") a "Rheoliad 702/2013" ("*Regulation 702/2013*")" rhodder "a "Rheoliad 211/2013" ("*Regulation 211/2013*")".

(3) Yn rheoliad 22, yn y diffiniad o "cynnyrch", yn lle "Penderfyniad y Comisiwn 2007/275/EC ynghylch rhestrau o anifeiliaid a chynhyrchion sydd i'w harchwilio wrth safleoedd arolygu ar y ffin o dan Gyfarwyddebau'r Cyngor 91/496/EEC a 97/78/EC" rhodder "Penderfyniad y Comisiwn 2007/275/EC ynghylch rhestrau o anifeiliaid a chynhyrchion sydd i'w harchwilio wrth safleoedd arolygu ar y ffin o dan Gyfarwyddebau'r Cyngor 91/496/EEC a 97/78/EC(**61**)".

(4) Yn Atodlen 1—

(a) yn y diffiniad o "Rheoliad 882/2004", yn lle ", Rheoliad 669/2009 a Rheoliad 702/2013 ("*Regulation 702/2013*")" rhodder "a Rheoliad 669/2009";

(b) hepgorer y diffiniad o "Rheoliad 702/2013".

(**58**) O.S. 2008/1080 (Cy. 114), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/1653 (Cy. 154); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**59**) O.S. 2008/1275 (Cy. 132), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**60**) O.S. 2009/3376 (Cy. 298), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/2714 (Cy. 271); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**61**) OJ Rhif L 116, 4.5.2007, t. 9, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/1196 (OJ Rhif L 197, 22.7.2016, t. 10).

(5) Yn Atodlen 3, yn y diffiniad o “cyfraith bwyd berthnasol” , ym mharagraff (a)—

(a) yn is-baragraff (iii), yn lle “Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 509/2006 ar gynhyrchion amaethyddol a bwydydd fel arbenigeddau traddodiadol a warentir” rhodder “Rheoliad (EU) Rhif 1151/2012 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar gynlluniau ansawdd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwydydd(**62**)”;

(b) yn is-baragraff (iv), yn lle “Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 510/2006 ar warchod dynodiadau daearyddol a dynodiadau tarddiad cynhyrchion amaethyddol a bwydydd” rhodder “Rheoliad (EU) Rhif 1151/2012 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar gynlluniau ansawdd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwydydd”;

(c) yn lle is-baragraff (vi) rhodder—

“(vi) rheoleiddio labelu cig eidion a chig llo o dan Reoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011(**63**),”;

(d) yn lle is-baragraff (vii) rhodder—

“(vii) rheoleiddio mewnforio a masnachu o ran cynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid o dan Reoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**64**), ac eithrio gweithredu a gorfodi rheoliad 32(3)(b) o’r Rheoliadau hynny gan yr Asiantaeth,”.

**Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009**

**19.**—(1) Mae Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009(**65**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad sy’n dechrau gyda “mae i “Cyfarwyddeb 2004/41””, yn lle “, “Rheoliad 2075/2005” a “Rheoliad 2076/2005”” rhodder “a “Rheoliad 2015/1375”” ac yn lle “, “*Regulation 2075/2005*” a “*Regulation 2076/2005’*”” rhodder “a “*Regulation 2015/1375*””.

(3) Yn Atodlen 1—

(a) yn y diffiniad o “Rheoliad 853/2004”, yn lle “, Rheoliad 2074/2005 a Rheoliad 2076/2005” rhodder “a Rheoliad 2074/2005”;

(b) yn y diffiniad o “Rheoliad 854/2004”, yn lle “, Rheoliad 2075/2005 a Rheoliad 2076/2005” rhodder “a Rheoliad 2015/1375”;

(c) yn y diffiniad o “Rheoliad 882/2004”, hepgorer “a Rheoliad 2076/2005”;

(d) yn lle’r diffiniad o “Rheoliad 2075/2005” rhodder—

“ystyr “Rheoliad 2015/1375” (“*Regulation 2015/1375*”) yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2015/1375 sy’n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig(**66**).”;

(e) hepgorer y diffiniad o “Rheoliad 2076/2005”.

**Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2009**

**20.**—(1) Mae Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2009(**67**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle Atodlen 3 rhodder yr Atodlen a nodir yn Atodlen 1 i’r Rheoliadau hyn.

(**62**) OJ Rhif L 343, 14.12.2012, t. 1, fel y’i cywirwyd gan y Corigendwm a nodir yn OJ Rhif L 55, 27.2.2013, t. 27.
(**63**) O.S. 2011/991 (Cy. 145), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.
(**64**) O.S. 2011/2379 (Cy. 252), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.
(**65**) O.S. 2009/1557 (Cy. 152), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/2714 (Cy. 271); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.
(**66**) OJ Rhif L 212, 11.8.2015, t. 7.
(**67**) O.S. 2009/1795 (Cy. 162), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/2289 (Cy. 201); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(3) Yn lle Atodlen 4 rhodder yr Atodlen a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

**Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011**

**21.** Yn rheoliad 8(2)(ch)(ii) o Reoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011(**68**), yn lle "Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd" rhodder "Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd(**69**) fel y diwygir Atodiad I iddo o bryd i'w gilydd".

**Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012**

**22.**—(1) Mae Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012(**70**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 13, yn lle "Yn y Rhan hon ac yn Atodlen 1 mae unrhyw gyfeiriad" rhodder "Ac eithrio yn rheoliad 14(1), mae unrhyw gyfeiriad yn y Rhan hon ac yn Atodlen 1".

(3) Yn rheoliad 14(1), yn lle "Erthygl 22(4) a (5) ac Erthygl 23," rhodder "Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1282/2011(**71**), Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1183/2012(**72**), Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 202/2014(**73**), Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EU) 2015/174(**74**), Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EU) 2016/1416(**75**), Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/752(**76**), Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EU) 2018/79(**77**) ac Erthygl 6 o Reoliad y Comisiwn (EU) 2018/831(**78**),".

(**68**) O.S. 2011/1605 (Cy. 186).
(**69**) OJ Rhif L 12, 15.1.2011, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2018/831 (OJ Rhif L 140, 6.6.2018, t. 35).
(**70**) O.S. 2012/2705 (Cy. 291), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**71**) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1282/2011 sy'n diwygio ac yn cywiro Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd (OJ Rhif L 328, 10.12.2011, t. 22). Mae Erthygl 2 yn darparu y caiff deunyddiau ac eitemau plastig a roddwyd ar y farchnad yn gyfreithlon cyn 1 Ionawr 2012 ac nad oeddent yn cydymffurfio â Rheoliad 1282/2011 (a ddiwygiodd Atodiad I i Reoliad 10/2011) barhau i gael eu rhoi ar y farchnad tan 1 Ionawr 2013 ac y cânt aros ar y farchnad ar ôl y dyddiad hwnnw nes i'r stociau gael eu disbyddu.
(**72**) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1183/2012 sy'n diwygio ac yn cywiro Rheoliad (EU) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd (OJ Rhif L 338, 12.12.2012, t. 11). Mae Erthygl 2 yn darparu y caiff deunyddiau ac eitemau plastig a roddwyd ar y farchnad yn gyfreithlon cyn 1 Ionawr 2013 ac nad oeddent yn cydymffurfio â Rheoliad 1183/2012 (a ddiwygiodd Atodiad I i Reoliad 10/2011) barhau i gael eu rhoi ar y farchnad tan 1 Ionawr 2014 ac y cânt aros ar y farchnad ar ôl y dyddiad hwnnw nes i'r stociau gael eu disbyddu.
(**73**) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 202/2014 sy'n diwygio Rheoliad (EU) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd (OJ Rhif L 62, 4.3.2014, t. 13). Mae Erthygl 2 yn darparu y caiff deunyddiau ac eitemau plastig a roddwyd ar y farchnad yn gyfreithlon cyn 24 Mawrth 2014 ac nad oeddent yn cydymffurfio â Rheoliad 202/2014 (a ddiwygiodd Atodiad I i Reoliad 10/2011) barhau i gael eu rhoi ar y farchnad tan 24 Mawrth 2015 ac y cânt aros ar y farchnad ar ôl y dyddiad hwnnw nes i'r stociau gael eu disbyddu.
(**74**) Rheoliad y Comisiwn (EU) 2015/174 sy'n diwygio ac yn cywiro Rheoliad (EU) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd (OJ Rhif L 30, 6.2.2015, t. 2). Mae Erthygl 2 yn darparu y caiff deunyddiau ac eitemau plastig sy'n cydymffurfio â gofynion Rheoliad 10/2011 fel yr oedd yn gymwys cyn 26 Chwefror 2015 gael eu rhoi ar y farchnad tan 26 Chwefror 2016 ac y cânt aros ar y farchnad ar ôl y dyddiad hwnnw nes i'r stociau gael eu disbyddu.
(**75**) Rheoliad y Comisiwn (EU) 2016/1416 sy'n diwygio ac yn cywiro Rheoliad (EU) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd (OJ Rhif L 230, 25.8.2016, t. 22). Mae Erthygl 2 yn darparu y caiff deunyddiau ac eitemau plastig sy'n cydymffurfio â Rheoliad 10/2011 fel yr oedd yn gymwys cyn i Reoliad 2016/1416 ddod i rym ar 14 Medi 2016 gael eu rhoi ar y farchnad tan 14 Medi 2017 ac y cânt aros ar y farchnad ar ôl y dyddiad hwnnw nes i'r stociau gael eu disbyddu.
(**76**) Rheoliad y Comisiwn (EU) 2017/752 sy'n diwygio ac yn cywiro Rheoliad (EU) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd (OJ Rhif L 113, 29.4.2017, t. 18). Mae Erthygl 2 yn darparu y caiff deunyddiau ac eitemau plastig sy'n cydymffurfio â Rheoliad 10/2011 fel yr oedd yn gymwys cyn i Reoliad 2017/752 ddod i rym ar 19 Mai 2017 gael eu rhoi ar y farchnad tan 19 Mai 2018 ac y cânt aros ar y farchnad ar ôl y dyddiad hwnnw nes i'r stociau gael eu disbyddu.
(**77**) Rheoliad y Comisiwn (EU) 2018/79 sy'n diwygio Rheoliad (EU) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd (OJ Rhif L 14, 19.1.2018, t. 31). Mae Erthygl 2 yn darparu y caiff deunyddiau ac eitemau plastig sy'n cydymffurfio â Rheoliad 10/2011 fel yr oedd yn gymwys cyn i Reoliad 2018/79 ddod i rym ar 8 Chwefror 2018 gael eu rhoi ar y farchnad tan 8 Chwefror 2019 ac y cânt aros ar y farchnad ar ôl y dyddiad hwnnw nes i'r stociau gael eu disbyddu.

(4) Yn rheoliad 16(2), yn lle “Yn ddarostyngedig i Erthygl 6(1), (2) a (4) (darpariaethau trosiannol), ni” rhodder “Ni”.

(5) Hepgorer rheoliadau 28 a 29.

**Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013**

**23.**—(1) Mae Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013(**79**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer y diffiniadau o “Cyfarwyddeb 76/621”, “Cyfarwyddeb 80/891”, “Rheoliad 629/2008” a “Rheoliad 165/2010”;

(b) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle “yng Nghyfarwyddeb 76/621, Cyfarwyddeb 80/891,” rhodder “yn”;

(ii) hepgorer “neu’r Cyfarwyddebau”;

(c) ym mharagraff (3)—

(i) yn lle “Gyfarwyddeb 76/621, Cyfarwyddeb 80/891, Rheoliad” rhodder “Reoliad”;

(ii) yn y ddau le y mae’n digwydd, hepgorer “Cyfarwyddebau neu’r”;

(d) ym mharagraff (4)(a), hepgorer “neu 7”.

(3) Hepgorer rheoliadau 3 a 4.

(4) Yn rheoliad 5—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

“(1) Mae person sy’n mynd yn groes i unrhyw un neu ragor o’r darpariaethau UE a bennir ym mharagraff (2) neu sy’n methu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor ohonynt yn euog o drosedd.”;

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) Rhaid penderfynu ar lefel yr asid erwsig mewn bwyd yn unol â dulliau samplu, a dulliau dadansoddi sy’n bodloni’r meini prawf perfformiad, a nodir yn yr Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EU) 2015/705 sy’n gosod dulliau samplu a meini prawf perfformiad ar gyfer y dulliau dadansoddi ar gyfer rheoli’n swyddogol lefelau’r asid erwsig mewn deunyddiau bwyd ac sy’n diddymu Cyfarwyddeb y Comisiwn 80/891/EEC(**80**).”

(5) Yn rheoliad 6, hepgorer “reoliad 4(3) neu”.

(6) Yn rheoliad 8—

(a) ym mharagraff (1)(c)(i), hepgorer “4(3) neu”;

(b) ym mharagraff (2), wrth gymhwyso ac addasu adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, hepgorer “4(1) or”.

(**78**) Rheoliad y Comisiwn (EU) 2018/831 sy’n diwygio Rheoliad (EU) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd (OJ Rhif L 140, 6.6.2018, t. 35). Mae Erthygl 6 yn darparu y caiff deunyddiau ac eitemau plastig sy’n cydymffurfio â Rheoliad 10/2011 fel yr oedd yn gymwys cyn i Reoliad 2018/831 ddod i rym ar 26 Mehefin 2018 gael eu rhoi ar y farchnad tan 26 Mehefin 2019 ac y cânt aros ar y farchnad ar ôl y dyddiad hwnnw nes i’r stociau gael eu disbyddu.

(**79**) O.S. 2013/2493 (Cy. 242), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(**80**) OJ Rhif L 113, 1.5.2015, t. 29.

**Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013**

**24.** Yn rheoliad 8(1)(b) o Reoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013(**81**), yn lle "(1), (3) or (4)" rhodder "(1)".

**Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2013**

**25.**—(1) Mae Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2013(**82**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer rheoliad 22.

(3) Yn Atodlen 7, yn Rhan 1—

(a) ym mharagraff 1, yn lle "sudd" rhodder "gynnyrch";

(b) ym mharagraff 2, yn y geiriau cyn is-baragraff (a), yn lle "suddoedd" rhodder "cynhyrchion".

(4) Yn Atodlen 9, ar ôl paragraff 9 mewnosoder—

"**10.** Proteinau planhigion i'w tryloywi o—

(a) gwenith,

(b) pys,

(c) tatws, neu

(d) unrhyw gyfuniad ohonynt."

**Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig etc. (Cymru) 2014**

**26.** Yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig etc. (Cymru)(**83**) 2014, yn y diffiniad o "halen halltu", ym mharagraff (c), yn lle "Rheoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion bwyd" rhodder "Rheoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion bwyd(**84**) fel y diwygir yr Atodiadau iddo o bryd i'w gilydd".

**Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016**

**27.** Yn rheoliad 12 o Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016(**85**), yn lle "Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol a geir yn Erthygl 32, mae" rhodder "Mae".

**Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016**

**28.**—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016(**86**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn lle'r diffiniad o "Rheoliad 882/2004" rhodder—

"ystyr "Rheoliad 882/2004 ("*Regulation 882/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau y

(**81**) O.S. 2013/2591 (Cy. 255), y mae diwygiad iddo nad yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**82**) O.S. 2013/2750 (Cy. 267), y mae diwygiad iddo nad yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**83**) O.S. 2014/3087 (Cy. 308).
(**84**) OJ Rhif L 354, 31.12.2008, t. 16, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2018/682 (OJ Rhif L 116, 7.5.2018, t. 5).
(**85**) O.S. 2016/386 (Cy. 120).
(**86**) O.S. 2016/387 (Cy. 121), y mae diwygiad iddo nad yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

caiff cydymffurfedd â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid ei wirio(**87**);”;

(b) yn lle’r diffiniad o “Rheoliad 767/2009” rhodder—

“ystyr “Rheoliad 767/2009” (“*Regulation 767/2009*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 767/2009 Senedd Ewrop a’r Cygnor ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a’i ddefnyddio, sy’n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a’r Cyngor ac yn diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 79/373/EEC, Cyfarwyddeb y Comisiwn 80/511/EEC, Cyfarwyddebau’r Cyngor 82/471/EEC, 83/228/EEC, 93/74/EEC, 93/113/EC a 96/25/EC a Phenderfyniad y Comisiwn 2004/217/EC(**88**);”.

(3) Yn rheoliad 4(2)(a), yn lle “2(e)” rhodder “2(f)”.

# RHAN 3

## Dirymiadau

**29.** Mae’r Rheoliadau a restrir yn Atodlen 3 wedi eu dirymu.

*Vaughan Gething*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

2 Gorffennaf 2018

(**87**) OJ Rhif L 165, 30.4.2004, t. 1, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2018/455 (OJ Rhif L 77, 20.3.2018, t. 4).
(**88**) OJ Rhif L 229, 1.9.2009, t. 1, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/2279 (OJ Rhif L 328, 12.12.2017, t. 3).

## ATODLEN 1

Rheoliad 20(2)

### YR ATODLEN A RODDIR YN LLE ATODLEN 3 I REOLIADAU ARBELYDRU BWYD (CYMRU) 2009

“ATODLEN 3

Rheoliadau 3(1)a 5(1)(b)(i)

### RHESTR O GYFLEUSTERAU A GYMERADWYWYD MEWN AELOD-WLADWRIAETHAU

| *Rhif cyfeirnod swyddogol* | *Enw a chyfeiriad* |
|---|---|
| 2110/91/0004 | Sterigenics SA<br>Zoning Industriel<br>6220 Fleurus<br>Gwlad Belg |
| 01/23.05.2008 | Bulgamma, Sopharma Ltd<br>Iliensko Shosse 16<br>Sofia<br>Bwlgaria |
| 2/26.10.2010 | GITAVA Ltd ‘Kalina’<br>Town of Stamboliyski<br>Hristo Botev str.<br>Municipality Stamboliyski<br>Plovdiv district<br>Bwlgaria |
| IR-02-CZ | Bioster a.s.<br>Tejny 621<br>664 71 Veverská Bítýška<br>Y Weriniaeth Tsiec |
| SN 01 | Synergy Health Radeberg GmbH<br>Juri—Gagarin Strasse 15<br>01454 Radeberg<br>Yr Almaen |

| *Rhif cyfeirnod swyddogol* | *Enw a chyfeiriad* |
|---|---|
| BY FS 01/2001 | Synergy Health Allershausen GmbH<br>Kesselbodenstrasse 7<br>85391 Allershausen<br>Yr Almaen |
| NRW-GM 01 ac NRW-GM 02 | BGS Beta-Gamma-Service GmbH & Co. KG<br>Fritz-Kotz-Str.16<br>51674 Wiehl<br>Yr Almaen |
| D-BW-X-01 | Beta-Gamma-Service GmbH & Co. KG<br>John-Deere-Strasse 3<br>76646 Bruchsal<br>Yr Almaen |
| 2835 | Scandinavian Clinics Estonia OÜ<br>Kurvi tee 406a,<br>Alliku kula,<br>76403 Saue vald,<br>Harjumaa<br>Estonia |
| 5.00001/CU | Ionmed Esterilización, SA<br>C/Rocinante, Parc.50<br>(Polg. Ind. Tarancón)<br>16400 Tarancón (Cuenca)<br>Sbaen |
| 5.00002/B | Aerogamma S.L.<br>Carretera Granollers a Cardeneu, Km. 3.5<br>08520 Les Franqueses del Vallés (Barcelona)<br>Sbaen |

| *Rhif cyfeirnod swyddogol* | *Enw a chyfeiriad* |
|---|---|
| 5.00005/SO | Mevion Technology, S.L.<br>Avda. De España, 1<br>Pol. Industrial Emiliano Revilla,<br>42110 Ólvega (Soria)<br>Sbaen |
| 13055 F | Synergy Health<br>Rue Jean Queillau Marché des Arnavaux<br>13014 Marseille Cedex 14<br>Ffrainc |
| 72 264 F | Ionisos SA<br>Zone industrielle de l’Aubrée<br>72300 Sablé-sur-Sarthe<br>Ffrainc |
| 85 182 F | Ionisos SA<br>Zone industrielle Montifaud<br>85700 Pouzauges<br>Ffrainc |
| 01 142 F | Ionisos SA<br>Zone Industrielle les Chartinières<br>01120 Dagneux<br>Ffrainc |
| 10 093 F | Ionisos SA<br>Zone Industrielle<br>10500 Chaumesnil<br>Ffrainc |
| 541-02/03-IRB16-1 | Institut Ruder Bošković,<br>Bijenička 54, |

| *Rhif cyfeirnod swyddogol* | *Enw a chyfeiriad* |
|---|---|
| | 10 000 Zagreb,<br><br>Croatia |
| EU-AIF-04-2002 | AGROSTER Besugárzó Zártkörűen Működő Részvénytársaság<br><br>Budapest<br><br>Jászberényi út 5<br><br>1106<br><br>Hwngari |
| RAD 1/04 IT | Gammarad Italia SPA<br><br>Via Marzabotto 4<br><br>Minerbio (BO)<br><br>Yr Eidal |
| GZB/VVB-991393 Ede | Synergy Health<br><br>Morsestraat 3<br><br>6716AH Ede<br><br>Yr Iseldiroedd |
| GZB/VVB-991393 Etten-Leur | Synergy Health<br><br>Soevereinsestraat 2<br><br>4879 NN Etten-Leur<br><br>Yr Iseldiroedd |
| GIS-HZ-4434-W.-2/MR/03 | Institute of Applied Radiation Chemistry<br><br>Technical University of Lodz<br><br>15 Wróblewskiego Str.<br><br>39-590 Łódź<br><br>Gwlad Pwyl |
| GIS-HZ-4434-W.-3/MR/03 | Institute of Nuclear Chemistry and Technology<br><br>16 Dorodna Str.<br><br>03-195 Warsaw |

| *Rhif cyfeirnod swyddogol* | *Enw a chyfeiriad* |
|---|---|
| | Gwlad Pwyl |
| RG016/2008 | Multipurpose Irradiation Facility<br><br>IRASM Technological Irradiations Department<br><br>Horia Hulubei<br><br>National Institute for Research and Development of Physics and Nuclear Engineering<br><br>Atomiştilor Str. No. 407<br><br>PO Box MG-6<br><br>Măgurele. Ilfov County<br><br>Rwmania |
| EW/04 | Synergy Health<br><br>Moray Road<br><br>Elgin Industrial Estate<br><br>Swindon<br><br>Wiltshire<br><br>SN2 8XS<br><br>Y Deyrnas Unedig”. |

## ATODLEN 2

Rheoliad 20(3)

## YR ATODLEN A RODDIR YN LLE ATODLEN 4 I REOLIADAU ARBELYDRU BWYD (CYMRU) 2009

## “ATODLEN 4

Rheoliad 5(1)(b)(ii)

## RHESTR O GYFLEUSTERAU MEWN GWLEDYDD Y TU ALLAN I’R UNDEB EWROPEAIDD

| *Rhif cyfeirnod swyddogol* | *Enw a chyfeiriad* |
|---|---|
| EU-AIF 01-2002 | HEPRO Cape (Pty) Ltd<br><br>6 Ferrule Avenue<br><br>Montague Gardens |

| *Rhif cyfeirnod swyddogol* | *Enw a chyfeiriad* |
|---|---|
| | Milnerton 7441<br><br>Western Cape<br><br>Gweriniaeth De Affrica |
| EU-AIF 02-2002 | Gammaster South Africa (Pty) Ltd<br><br>PO Box 3219<br><br>5 Waterpas Street<br><br>Isando Extension 3<br><br>Kempton Park 1620<br><br>Johannesburg<br><br>Gweriniaeth De Affrica |
| EU-AIF 03-2002 | Gamwave (Pty) Ltd<br><br>PO Box 26406<br><br>Isipingo Beach<br><br>Durban 4115<br><br>Kwazulu-Natal<br><br>Gweriniaeth De Affrica |
| EU-AIF 05-2004 | Gamma-Pak As<br><br>Yünsa Yolu N: 4 0SB<br><br>Cerkezköy/TEKIRDAG<br><br>TR-59500<br><br>Twrci |
| EU-AIF 06-2004 | Studer Ag Werk Hard<br><br>Hogenweidstrasse 2<br><br>Däniken<br><br>CH-4658<br><br>Y Swistir |
| EU-AIF 07-2006 | Thai Irradiation Centre |

| *Rhif cyfeirnod swyddogol* | *Enw a chyfeiriad* |
|---|---|
| | Thailand Institute of Nuclear Technology<br><br>(Public Organisation)<br><br>37 Moo 3, TECHNOPOLIS<br><br>Klong 5, Klong Luang<br><br>Pathumthani 12120<br><br>Gwlad Thai |
| EU-AIF 08-2006 | Synergy Health (Thailand) Ltd<br><br>700/465 Amata Nakorn Industrial<br><br>Moo 7, Tambon Donhuaroh,<br><br>Amphur Muang,<br><br>Chonburi 20000<br><br>Gwlad Thai |
| EU-AIF 09-2010 | Board of Radiation and Isotope Technology<br><br>Department of Atomic Energy<br><br>BRIT/BARC Vashi Complex<br><br>Sector 20, Vashi<br><br>Navi Mumbai – 400 705 (Maharashtra)<br><br>India |
| EU-AIF 10-2010 | Board of Radiation and Isotope Technology<br><br>ISOMED<br><br>Bhabha Atomic Research Centre<br><br>South Site Gate, Refinery Road<br><br>Next to TATA Power Station, Trombay<br><br>Mumbai – 400 085 (Maharashtra)<br><br>India |
| EU-AIF 11-2010 | Microtrol Sterilisation Services Pvt. Ltd<br><br>Plot No. 14 Bommasandra- Jigani Link Road Industrial Area |

| *Rhif cyfeirnod swyddogol* | *Enw a chyfeiriad* |
|---|---|
| | KIADB, Off Hosur Road<br><br>Hennagarra Post<br><br>Bengalooru – 562 106 (Karnataka)<br><br>India”. |

ATODLEN 3

Rheoliad 29

Y RHEOLIADAU SYDD WEDI EU DIRYMU

| *Enw* | *Rhif OS* |
|---|---|
| Rheoliadau Esgyrn Cig Eidion (Diwygio) (Cymru) 1999 | 1999/3464 (Cy. 52) |
| Rheoliadau Cynhyrchion Llaeth (Hylendid) (Taliadau) (Diwygio) (Cymru) 2000 | 2000/1738 (Cy. 121) |
| Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2000 | 2000/1799 (Cy. 124) |
| Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Hylendid) (Diwygio) (Cymru) 2000 | 2000/1885 (Cy. 131) |
| Rheoliadau Cig (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2000 | 2000/2257 (Cy. 150) |
| Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Siopau Cigyddion) (Diwygio) (Cymru) 2000 | 2000/3341 (Cy. 219) |
| Rheoliadau Cig Ffres (Dulliau Rheoli Cig Eidion) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2000 | 2000/3388 (Cy. 225) |
| Rheoliadau Cig (Hylendid ac Archwilio) (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2001 | 2001/1302 (Cy. 79) |
| Rheoliadau Clwy’r Traed a’r Genau (Marcio Cig a Chynhyrchion Cig) (Cymru) 2001 | 2001/1508 (Cy. 105) |
| Rheoliadau Cynhyrchion sy’n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Diwygio) (Cymru) 2001 | 2001/1660 (Cy. 119) |
| Rheoliadau Fformwla Fabanod a Fformwla Ddilynol (Diwygio) (Cymru) 2001 | 2001/1690 (Cy. 120) |
| Rheoliadau Clwy’r Traed a’r Genau (Marcio Cig, Briwgig a Pharatoadau Cig) (Cymru) 2001 | 2001/1740 (Cy. 123) |
| Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2001 | 2001/1787 (Cy. 128) |
| Rheoliadau Clwy’r Traed a’r Genau (Marcio Cig, Cynhyrchion Cig, Briwgig a Pharatoadau Cig) (Cymru) 2001 | 2001/1802 (Cy. 131) |
| Rheoliadau Cig (Pwerau Gorfodi Ehangach) (Cymru) 2001 | 2001/2198 (Cy. 158) |
| Rheoliadau Clwy’r Traed a’r Genau (Marcio Cig, Cynhyrchion Cig, Briwgig a Pharatoadau Cig) (Cymru) (Rhif 2) 2001 | 2001/2627 (Cy. 216) |
| Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001 | 2001/2679 (Cy. 220) |

| *Enw* | *Rhif OS* |
|---|---|
| Rheoliadau Cig (Hylendid ac Archwilio) (Taliadau) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2001 | 2001/3831 (Cy. 317) |
| Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2002 | 2002/47 (Cy. 6) |
| Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig, Paratoadau Cig a Chynhyrchion Cig) (Cymru) 2002 | 2002/129 (Cy. 17) |
| Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2002 | 2002/329 (Cy. 42) |
| Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2002 | 2002/330 (Cy. 43) |
| Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) (Diwygio) (Cymru) 2002 | 2002/430 (Cy. 52) |
| Rheoliadau Cig (Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol) (Cymru) 2002 | 2002/1476 (Cy. 148) |
| Rheoliadau Bwyd (Pysgnau o Tsieina) (Rheolaeth Frys) (Diwygio) (Cymru) 2002 | 2002/1728 (Cy. 162) |
| Rheoliadau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid (Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid o Tsieina) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2002 | 2002/1798 (Cy. 173) |
| Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2002 | 2002/3011 (Cy. 283) |
| Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2003 | 2003/945 (Cy. 126) |
| Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2003 | 2003/1713 (Cy. 181) |
| Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Diwygio) (Cymru) 2003 | 2003/3042 (Cy. 287) |
| Rheoliadau Bwyd (Rheolaeth Frys) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2004 | 2004/245 (Cy. 24) |
| Rheoliadau Fformwla Fabanod a Fformwla Ddilynol (Diwygio) (Cymru) 2004 | 2004/313 (Cy. 31) |
| Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2004 | 2004/554 (Cy. 57) |
| Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) (Diwygio) 2004 | 2004/1012 (Cy. 109) |
| Rheoliadau Bwyd (Cyffaith Jeli) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Diwygio) 2004 | 2004/1262 (Cy. 134) |
| Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Diwygio) (Cymru) 2004 | 2004/1509 (Cy. 158) |
| Rheoliadau Bwyd (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2004 | 2004/1804 (Cy. 192) |
| Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2005 | 2005/259 (Cy. 25) |

| *Enw* | *Rhif OS* |
|---|---|
| Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2005 | 2005/363 (Cy. 30) |
| Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005 | 2005/1156 (Cy. 73) |
| Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2005 | 2005/1310 (Cy. 92) |
| Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2005 | 2005/1311 (Cy. 93) |
| Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005 | 2005/1628 (Cy. 122) |
| Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2005 | 2005/3236 (Cy. 241) |
| Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2006 | 2006/767 (Cy. 74) |
| Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2006 | 2006/2128 (Cy. 198) |
| Rheoliadau Cynhyrchion Reis (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Diwygio) 2006 | 2006/2969 (Cy. 268) |
| Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) (Diwygio) 2007 | 2007/116 (Cy. 7) |
| Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2007 | 2007/579 (Cy. 51) |
| Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2007 | 2007/1710 (Cy. 148) |
| Rheoliadau Cynhyrchion Buchol (Cyfyngu ar eu Rhoi ar y Farchnad) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2007 | 2007/1835 (Cy. 159) |
| Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol a Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2008 | 2008/138 (Cy. 20) |
| Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2009 | 2009/390 (Cy. 40) |
| Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2009 | 2009/392 (Cy. 41) |
| Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009 | 2009/1088 (Cy. 96) |
| Rheoliadau Meini Prawf Purdeb ar gyfer Lliwiau, Melysyddion ac Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Cymru) 2009 | 2009/1092 (Cy. 97) |
| Rheoliadau Meini Prawf Purdeb ar gyfer Lliwiau, Melysyddion ac Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Cymru) (Diwygio) 2009 | 2009/2201 (Cy. 186) |
| Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2009 | 2009/3105 (Cy. 271) |
| Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2009 | 2009/2939 (Cy. 256) |
| Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2009 | 2009/3378 (Cy. 300) |

| *Enw* | *Rhif OS* |
|---|---|
| Rheoliadau Labelu Bwyd (Gwybodaeth Faethol) (Cymru) (Diwygio) 2010 | 2010/1069 (Cy. 100) |
| Rheoliadau Cyflasynnau mewn Bwyd (Cymru) 2010 | 2010/2922 (Cy. 243) |

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau o ran Cymru i nifer o ddarnau o is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae rheoliad 11 yn diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (O.S. 2006/32 (Cy. 5)) i ddiwygio'r diffiniad o Reoliad (EC) 852/2004 ar hylendid deunyddiau bwyd (OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 1) er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliad hwnnw gael ei ddarllen gyda'r Rheoliad Comisiwn newydd (EU) Rhif 2017/2158 sy'n sefydlu mesurau lliniaru a lefelau meincnodi ar gyfer lleihau presenoldeb acrylamid mewn bwyd (OJ Rhif L 304, 21.11.2017, t. 24).

Mae rheoliad 25 yn diwygio Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2013 (O.S. 2013/2750) (Cy. 267)) i weithredu Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 1040/2014 sy'n diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/112/EC sy'n ymwneud â suddoedd ffrwythau a chynhyrchion tebyg penodol a fwriedir i bobl eu hyfed i addasu ei Hatodiad I i gynnydd technegol (OJ Rhif L 288, 2.10.2014, t. 1). Mae hyn yn caniatáu i broteinau planhigion o wenith, pys a thatws gael eu defnyddio i dryloywi cynhyrchion y mae Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2013 yn gymwys iddynt.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau amrywiol eraill i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid, yn enwedig gan ddiwygio hen gyfeiriadau at ddeddfwriaeth ddomestig ac at offerynnau gan yr UE.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.